



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar
Ysgol Y Faenol
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2NN**

Dyddiad yr arolygiad: 12 Hydref 2010

gan

Mr Goronwy Morris

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

ⓂArgaraffydd a Rheolydd Llyrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint yn y deunydd fel y dywedwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Y Faenol sydd o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ym Mhenrhosgarnedd, nid nepell o ddinas Bangor. Gweithredir polisi iaith Awdurdod Lleol (ALI) Gwynedd. Mae'r dogfennau cyn-arolygiad yn awgrymu nad oes canran uchel o'r disgyblion o dan anfantais neu amddifadedd cymdeithasol ac maent yn adlewyrchu ystod lawn o allu. Mae 4% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na chyfartaledd yr ALI o 12.8% a'r ganran ar draws Cymru o 17.5%. Daw tua 10% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae hyd at 25% yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig. Mae canlyniadau asesiad sylfaen yn yr ysgol oddeutu cyfartaledd y sir.

Ar hyn o bryd, mae 222 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran derbyn i flwyddyn (B) 6. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser yn unol â pholisïau'r ALI ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Derbynnir plant i'r meithrin yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed; ar hyn o bryd, mae 22 plentyn yn mynychu'n rhan amser bob bore. Mae 12 disgybl wedi eu hadnabod fel rhai ag anghenion addysg arbennig (AAA) gan gynnwys naw ar weithredu ysgol a mwy a tri sydd ar ddatganiad o AAA. Mae 24 disgybl yn yr ysgol yn derbyn cymorth dysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes disgybl o dan ofal yr ALI yn yr ysgol.

Yn ogystal â'r pennaeth mae 10 o athrawon amser llawn. Yn ychwanegol mae un athrawes rhan amser. Mae 10 dosbarth yn yr ysgol gan gynnwys y dosbarth meithrin. Mae niferoedd y disgyblion yn yr ysgol wedi codi ychydig ers pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2004.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Faenol yw £2718 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8442 ac isafswm o £2717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Gan yr ysgol y mae'r 102il cyllideb Isaf fesul disgybl o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae disgyblion yn cyflawni safonau da;
- mae'r addysgu o ansawdd da ac mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau amrywiol; ac
- mae gweithdrefnau cymorth ac arweiniad effeithiol yn cyfrannu'n gadarnhaol at les disgyblion.

Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol;
- cydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleoedd cyfartal; ac
- mae'r tîm arolygu yn hyderus fod ymroddiad yr holl staff tuag at lwyddiant yr ysgol yn arwain at welliannau pellach.

Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

- A1 wella safon gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn y Gymraeg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2;
- A2 ehangu cyfleodd i ddisgyblion ddod yn gynyddol gyfrifol am eu dysgu eu hunain;
- A3 sicrhau bod cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunan arfarnu, y cynllun datblygu ysgol (CDY) a thargedau unigol disgyblion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
---	-----------

Safonau: Da

Yn gyffredinol, mae perfformiad yn erbyn prif ddangosyddion ar gyfer cyfnodau allweddol dros y tair blynedd diwethaf wedi cymharu'n dda ag ysgolion tebyg a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion.

Mae cyflawniadau'r disgyblion saith oed yn 2010 ym mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr ALI a chenedlaethol. Maent ychydig yn is yn y Gymraeg. Mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch hefyd yn uwch na'r canrannau cenedlaethol ym mathemateg a gwyddoniaeth ond yn sylweddol is yn y Gymraeg. O ystyried y data dros y cyfnod 2006-2010 mae canlyniadau asesiadau yng nghyfnod allweddol 1 yn dangos gwelliant sylweddol o'u cymharu ag ysgolion tebyg.

Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2, mae cyflawniad y disgyblion 11 oed yn y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau'r ALI a chenedlaethol. Mae cyflawniad yn y Gymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ond ychydig yn is na chyfartaledd yr ALI a'r teulu. Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch hefyd yn uwch na chanrannau'r ALI a chenedlaethol yn y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg. Dros y cyfnod 2006-2010 mae canlyniadau cyfnod allweddol 2 yn amrywio ond yn gyson uwch na chyfartaleddau'r ALI a chenedlaethol. Yn gyffredinol, maent yn uwch na chyfartaledd y teulu heblaw yn y Gymraeg. Nid oes patrwm arwyddocaol yn amlygu ym

Adroddiad ar Ysgol Y Faenol
12 Hydref 2010

mherfformiad bechgyn a merched. Mae cyflawniad disgyblion ethnig yr ysgol yn debyg i weddill y garfan o'r un flwyddyn.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu, eu diddordebau a'u perfformiad blaenorol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu hunain yn glir. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safonau da yn eu medrau darllen ac ysgrifennu yn Saesneg a defnyddiant yr holl sgiliau yn hyderus yn drawsgwricwlaidd. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau darllen da yn y Gymraeg ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Serch hynny nid yw medrau ysgrifennu estynedig a chreadigol y disgyblion yn y Gymraeg cystal â'r Saesneg. Ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau hir ac o'r herwydd digonol yw'r agwedd hon o'u gwaith. Yn gyffredinol nid ydynt yn ddigon hyderus i ysgrifennu'n helaeth yn annibynnol gyda rhuglder a chywirdeb, ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. Nid oes gan leiafrif ohonynt fedrau sillafu a gramadeg da. Mae defnydd rhan fwyaf y disgyblion o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n dda. Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn eu defnyddio'n bwrpasol mewn sawl maes o'r cwricwlwm. Gan ystyried eu cefndir ieithyddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg. Maent yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu'r iaith ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn llwyddo i gyrraedd lefel dda o ddwyieithrwydd. Mae safonau yn y Gymraeg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Lles: Da

Mae gan yr holl ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd ac maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud mai ychydig iawn o fwlio neu aflonyddu sy'n digwydd. Lle mae achosion yn codi mae'r disgyblion yn dweud fod yr ysgol yn mynd i'r afael â nhw yn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant ac maent yn dangos balchder a hyder wrth ymgymryd â gweithgareddau gweithredol a chorfforol. Mae llawer yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn cyfrannu'n effeithiol at yr hyn y maent yn dysgu. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Cyfnod Sylfaen. Serch hynny nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2, yn gyffredinol, yn meddu ar y medrau angenrheidiol i wella eu dysgu eu hunain.

Mae ymddygiad yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn dda i oedolion. Maent yn dangos parch, gofal a phryder at eraill. Mae cyfraddau presenoldeb ychydig yn is nag ysgolion tebyg. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae llais y plant yn cael lle amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae cyngor yr ysgol wedi cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol ac wedi arwain at welliannau.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd parchu aml ddiwylliannau, tegwch a chyfle cyfartal.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu da i'r disgyblion sydd yn cyfoethogi eu haddysg ac yn llwyr ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau dychmygus a diddorol sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion. Ategir at y gwersi trwy ystod eang o brofiadau diddorol oddi fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer datblygu cyfathrebu, darllen, rhifedd a TGCh yn drylwyr ac yn dangos amcanion clir. Datblygir medrau llefaredd, rhifedd a TGCh y disgyblion mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd yn effeithiol.

Mae hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn rhan bwysig iawn o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ethos rhyngwladol yn treiddio drwy nifer o weithgareddau'r ysgol sydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth yn un o gryfderau'r ysgol. Hybir sgiliau mentergarwch y disgyblion yn fentrus. Mae gweithgareddau datblygu adnabyddiaeth disgyblion o gynladwyedd a'r amgylchfyd yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Datblygir medrau llefaredd a darllen disgyblion yn effeithiol. Serch hynny mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu gallu i ysgrifennu'n estynedig. Cynigir darpariaeth dda yn yr holl ddo-barthiadau ar gyfer hyrwyddo diwylliant Cymru.

Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb ac mae'n sicrhau cynnydd a dysgu da gan y disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu llawn dychymyg er bod tystiolaeth mewn sawl pwnc o orddibyniaeth ar daflenni gwaith sydd yn cael effaith ar safonau. Mae'r athrawon yn disgwyl llawer gan bob un o'r disgyblion ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill. Mae perthynas dda rhwng athro a disgybl a gwneir defnydd buddiol o staff ategol. Rheolir ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Mae asesu, adrodd a chofnodi cyflawniad disgyblion o ansawdd da. Mae athrawon yn asesu ac yn olrhain cynnydd dysgu disgyblion yn rheolaidd, ar lefel disgyblion unigol. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ac adeiladol defnyddiol. Yn gyffredinol nid oes cyswllt digon clir rhwng y sylwadau hyn a thargedau unigol disgyblion. O'r herwydd, nid yw llawer o'r disgyblion yn siŵr o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae adroddiadau i rieni a gofalwyr yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Maent yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae darpariaeth dda ar gyfer iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo buddion byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o weithgareddau creadigol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned drefnus a gofalgwr sydd â disgwyliadau, rheolau a gweithdrefnau sy'n cael

Adroddiad ar Ysgol Y Faenol
12 Hydref 2010

eu deall yn glir. Mae rheolau a gweithdrefnau'r ysgol yn pwysleisio amgylchedd diogel, gofalgar a pharchus. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion diogelu yn llawn. Mae'n ymateb yn gyflym i unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch lles y disgyblion. Gwneir defnydd da ac effeithiol o holiaduron i grybwyll teimladau ac ymateb y plant i'r hyn sydd yn cael ei gyflwyno gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allweddol eraill i gefnogi disgyblion ac mae'r cymorth wedi ei dargedu'n effeithiol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn gyflym a darperir strategaethau priodol i'w bodloni.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwerthfawrogi amrywiaeth yn ei bywyd a'i gwaith beunyddiol. Mae cynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu priodol yn eu lle sy'n bodoli gofynion statudol. Mae digon o adnoddau da sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli yn cydweithio'n agos â'i gilydd i greu ethos cadarnhaol ar gyfer yr ysgol gyfan, lle caiff gwaith tîm ei annog a'i werthfawrogi. Mae nodau a pholisïau priodol wedi eu llunio sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion. Maent yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith yr ysgol. Cydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleoedd cyfartal. Mae cyd-gordwyr pwnc yn gweithio'n effeithiol a chydwybodol. Perchir barn dysgwyr o bob oedran a thrwy'r cyngor yr ysgol, cant gyfleodd da i roi barn a dylanwadu ar agweddau o fywyd yr ysgol. Sefydlwyd trefniadau clir ac effeithiol i adnabod anghenion datblygiad proffesiynol staff unigol. Mae'r system rheoli perfformiad yn sicrhau hyfforddiant cymwys i bob aelod o staff. Mae'r corff llywodraethol yn hynod o gefnogol i'r pennaeth, yn weithgar ac yn drylwyr. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio trwy ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth ac yn barod i herio penderfyniadau. Cyfrannant yn wybodus ac effeithiol i ddatblygiad yr ysgol. Mae eu rôl fel cyfaill beirniadol yn dda. Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau'r sir a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae paratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a gofynion Cwricwlwm 2008 yn drylwyr. Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion dwyieithrwydd, 'Ysgol Iach' ac 'Ysgol Eco' yn gydwobodol a llwyddiannus.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefnau clir o hunan arfarnu o fewn yr ysgol ac mae'r pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i godi safonau. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gynhwysfawr a gonest. Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o waith disgyblion, arsylwi addysgu a dadansoddi'n ofalus

Adroddiad ar Ysgol Y Faenol
12 Hydref 2010

ganlyniadau asesiadau ffurfiol. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r blaenoriaethau a bennir yn y CDY yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwylidig ynghyd â sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso'n ofalus gan aelodau o'r staff a'r llywodraethwyr. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunan arfarnu, blaenoriaethau yn y CDY a thargedau unigol y disgyblion yn ddigon clir. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad dysgwyr.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned, yr eglwys yng Nghymru ac eraill yn dda. Mae'r trefniadau pontio a gytunir gan y clwstwr o ysgolion a'r ysgolion uwchradd lleol yn galluogi disgyblion hŷn i baratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae cydweithio priodol ar waith o fewn y clwstwr i sicrhau gwell dealltwriaeth o asesiadau B2 a B6. Cydweithia'r ysgol â'r ALI ac ymgynghorwyr CYNNAL yn effeithiol wrth drafod cyllideb ac wrth gynllunio a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad buddiol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu'n llwyddiannus trwy astudio cysylltiadau rhyngwladol a gwledydd eraill.

Rheoli adnoddau: Da

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi gwella dysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda ac mae ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd i ymdrin â phob agwedd o gwricwlwm yr ysgol. Caiff effaith yr adnoddau ar addysgu a dysgu ei hadolygu'n gyson a chynllunir yn effeithiol ar gyfer anghenion y dyfodol. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn dda a blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu gwerth dda am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad randdeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwyd yr holiadur gan tua chwarter y rhieni a gofalwyr. Mynegwyd lefel uchel o foddhad ganddynt ynglŷn â'r ysgol. Maent i gyd o'r farn fod eu plant yn mwynhau bod yno ac yn ddiogel yn yr ysgol. Mae bron bob un ohonynt yn teimlo fod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae bron bob un o'r farn fod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Mae bron bob un hefyd yn datgan fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol, yn dod yn fwy aeddfed a chyfrifol, ac yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n meddwl bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn hawdd siarad â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon. Mae rhan fwyaf ohonynt o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac yn gwybod sut i gwyno pe bai angen.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd sampl fawr o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae'r disgyblion i gyd yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol ac maent, bron pob un, yn gwybod gyda phwy i siarad os ydyn nhw'n poeni neu ofidio. Maent i gyd o'r farn fod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a'u bod yn gwneud cynnydd. Maent yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda er bod rhai yn teimlo nad yw gwaith cartref yn eu helpu i wella'u gwaith yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl o'r farn fod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda bob amser, ac weithiau bod ymddygiad disgyblion yn eu hatal rhag gwneud eu gwaith gystal ag y gallent. Mae rhai yn datgan nad yw pob plentyn yn ymddwyn yn dda yn ystod yr egwyl chwarae a'r egwyl ginio. Mae ychydig iawn yn teimlo nad yw'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.

Adroddiad ar Ysgol Y Faenol
12 Hydref 2010

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Geraint Wyn Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Eleri Williams	Enwebai'r Ysgol

Contractwr: EPPC-Severn Crossing Cyf Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi,
Castell-nedd SA10 6JQ

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11